Adroddiad i'r: **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

Dyddiad y Cyfarfod: **25 Ionawr 2017**

Aelod / Swyddog Arweiniol: **Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad.**
**Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio**

Awdur yr Adroddiad: **Nicola Kneale, Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol**
**Heidi Gray, Swyddog Cynllunio Strategol**

Teitl: **Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Rhagfyr 2016**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Rheoli Risg Gorfforaethol, gan gynnwys diwygiad Rhagfyr 2016 i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae'r adroddiad yn crynhoi sut y mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei monitro a'i rheoli ac felly'n cynrychioli adroddiad blynyddol er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried sut y rheolir Risg Gorfforaethol yn yr Awdurdod.

2.2 Cytunwyd ar y fersiwn ddiweddaraf ffurfiol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yng nghyfarfod Briffio'r Cabinet ar 9 Ionawr 2017, a bydd yn cael ei chyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 26 Ionawr 2017.

**3. Beth yw'r argymhellion?**

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi sut y rheolir Risg Gorfforaethol yn yr Awdurdod ac yn cyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r broses.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r Cyngor i reoli tebygolrwydd ac effaith y risgiau y mae'n eu hwynebu drwy werthuso effaith unrhyw gamau a gymerir ar hyn o bryd i liniaru risg, a chofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau am gamau gweithredu pellach ddylai sicrhau gwell rheolaeth.

4.2 Y Tîm Gweithredu Corfforaethol sydd wedi datblygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a nhw sy'n berchen arni. Mae'r broses ar gyfer adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel a ganlyn:

- Anogir gwasanaethau i adolygu eu cofrestr risg ddwywaith y flwyddyn (yn unol â'r fethodoleg Rheoli Risg Gorfforaethol) cyn pob adolygiad o'r

Gofrestr Risg Gorfforaethol, a hefyd cyn eu cyfarfodydd Herio Perfformiad y Gwasanaeth. Bydd unrhyw broblemau neu ymholiadau yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad y Gwasanaeth.

- Bydd y Tîm Cynllunio Strategol yn dadansoddi holl gofrestrau risg y gwasanaethau i ganfod unrhyw risgiau sy'n arwyddocaol yn gorfforaethol neu unrhyw themâu risg sy'n ymddangos ar draws y gwasanaethau.

- Bydd diweddariadau am y risgiau corfforaethol cyfredol yn cael eu casglu gan berchnogion y risg, a bydd diweddariadau ar gamau gweithredu i liniaru'r risg yn cael eu casglu gan y rhai sy'n cyflawni'r camau hynny.

- Cynhelir cyfarfodydd unigol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr i drafod y risgiau y maent yn gyfrifol amdanynt. Ystyrir p'un ai yw'r risg yn parhau, p'un ai yw'r sgôr yn gywir, a p'un ai oes angen cynnwys unrhyw risgiau newydd o dan eu hawdurdodaeth.

4.3 Bydd y Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Cabinet yn adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Ond bydd unrhyw risgiau newydd arwyddocaol neu risgiau sy'n cynyddu yn cael dwyn i sylw'r Tîm Gweithredu Corfforaethol (drwy'r Tîm Cynllunio Strategol) pan fyddant yn cael eu canfod. Yna bydd y Tîm Gweithredu Corfforaethol yn penderfynu a ddylid cynnwys y risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

4.4 Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (ddwywaith y flwyddyn), bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Trowch at Atodiad 1a 2 i weld y dogfennau diweddaraf a'r wybodaeth gefndir a gyflwynwyd i gyfarfod Briffio'r Cabinet ym mis Ionawr.

4.5 Bydd y camau gweithredu a nodir er mwyn delio â risgiau corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth (lle bo'n addas), sy'n galluogi Aelodau Archwilio Perfformiad i fonitro'r cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â chyflawni'r camau gweithredu hyn fel rhan o broses Herio Perfformiad y Gwasanaeth.

4.6 Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn darparu sicrwydd annibynnol o ran effeithiolrwydd y gweithdrefnau a'r mecanweithiau rheoli mewnol sydd wedi'u sefydlu er mwyn lliniaru risgiau yn y Cyngor. Mae hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu defnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r cyngor. Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd yn defnyddio gwybodaeth o gofrestrau risg ein gwasanaethau a'r gofrestr risg gorfforaethol er mwyn penderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les gyflawn oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru cyfredol ac arfaethedig. Nid oes angen cynnal Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun. Ond dylid asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru, ar lefel darparu gwasanaeth.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae manylion y broses ymgynghori i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.2.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r broses sydd wedi'i hamlinellu yn yr adroddiad hwn i ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y prif risg sy'n gysylltiedig â'r broses o reoli risg yw nad yw'r cofrestrau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac felly nid ydynt yn dod yn offeryn rheoli ystyrlon a dynamig. Ond mae'r broses wedi'i chynnwys yn llawn yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor, a ddylai sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Mae Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o ran archwilio risgiau a phrosesau rheoli risg yr Awdurdod.